

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 9fed Rhagfyr, 2019**, yng Nghanolfan Bryn croes, o 7.30 p.m. hyd 8.15 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Glyn Roberts (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)

Y Cynghorwyr David Brunelli, Carys H. Evans, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Carys E. Williams, Siôn Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Ifor Owen, Michael Strain, Glenys Williams

60. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

61. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Nid oedd gan unrhyw aelod ddiddordeb yn yr eitemau oedd i'w trafod.

62. CADARNHAU COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 11eg Tachwedd, 2019,

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd David Brunelli ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Carys H. Evans).

Nodyn – nid oedd unrhyw atebion i law yn dilyn y cyfarfod diwethaf).

63. CEISIADAU CYNLLUNIO

Cyflwynwyd y ceisiadau a ganlyn:

(a) Cais C19/0633/32/LL – dymchwel byngalo presennol a chodi ty newydd deulawr yn ei le – Hen Odyn, Nanhoron.

(b) Cais C19/1084/DT – estyniad llawr cyntaf i'r Lon, Botwnnog.

Penderfynwyd

1. Gwrthwynebu cais o dan gymal (a) uchod ar sail y byddai'r adeilad newydd arfaethedig allan o gymeriad yr ardal ac felly ddim yn gweddu i'r tirwedd. Hefyd mae'n adeilad llawer rhy fawr.

2. Cefnogi'r cais a nodir o dan gymal (b) uchod..

63. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd anfon y mater a ganlyn at y Peiriannydd Rhanbarthol, Cyngor Gwynedd sef fod twll dwfn wedi datblygu unwaith yn rhagor ger Ty Mawr Capel, Bryn croes.

Penderfynwyd ymhellach gofyn am gael llenwi'r bocsys graen ger Arallt, Sarn ac hefyd yr allt heibio Tyn y Coed, Sarn.

Adroddodd Y Cynghorydd Sir fod archwiliad o'r safle ym Mwthyn Gwyn, Bryncroes, ar y gweill.

64. **MATERION IECHYD**

Codwyd pryderon gan aelod o'r Cyngor tuag at y gwasanaeth dderbyniodd ei Dad pan darawyd ef yn wael ym mis Tachwedd eleni ac hefyd am yr oedi fu cyn i'r ambiwlans ddod i'w gludo i Ysbyty Gwynedd. (Oherwydd cyfrinachedd ni ellir dateglu manylion y gŵyn mewn cofnodion agored).

Penderfynwyd

- (a) Ysgrifennu at Reolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog, yn nodi'r pryderon dderbyniwyd.
- (b) Ysgrifennu at y Gwasanaeth Ambiwllans eto yn nodi pryderon y Cyngor.

65. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Swyddfa Archwilio Cymru (archwiliad 2018/19)	£ 295.50
HMRC	£ 93.20
Y Clarc	£ 372.55

66. **CYFARFOD I'R AELODAU**

Adroddodd y Clarc iddi dderbyn galwad ffon gan Y Cynghorydd Simon Glyn yn holi a fyddai gan y Cyngor hwn ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod gyda Swyddogion o Gyngor Gwynedd i roi arweiniad ar wahanol hawliau a.y. oedd gan y Cyngor.

Nododd mwyafrif o'r aelodau y byddai ganddynt ddiddordeb.

Wrth derfynu'r cyfarfod dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd i'r aelodau a'u teuluoedd.